# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc: 11 Chwefror 2020

## Pedwaredd sesiwn dystiolaeth yr ymchwiliad i weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc Llywodraeth Cymru

### 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

**Yn bresennol:**

**Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol**

Dr Dai Lloyd AC

**Yn rhoi tystiolaeth**

Yr Athro Push Mangat, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Dr Sian Lewis, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

**Yn cyflwyno**

Matt O'Grady, Y Gymdeithas Strôc

**Yn bresennol**

Katie Chapelle, Y Gymdeithas Strôc
Carol Bott, Y Gymdeithas Strôc
Dr Anne Freeman, Cyn-arweinydd Clinigol ym maes Strôc yng Nghymru
Martin Riley, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Dr Shakeel Ahmad, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
David Fitzpatrick, goroeswr strôc
Nick Cann, goroeswr strôc
Gareth Lee, Uned Cyflawni'r GIG
Tom Hughes, Cymdeithas Meddygon Strôc Prydain
Dau arall o Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Bethan Edwards, Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru

Noder: Mae'n debygol nad yw'r rhestr hon yn gyflawn

**Ymddiheuriadau:**

### 2. Cymeradwyo'r cofnodion

Ni chyflwynwyd cofnodion o'r cyfarfod blaenorol.

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y camau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf; y ffordd ymlaen

Ni chytunwyd ar gamau gweithredu yn y cyfarfod blaenorol.

**4. Sesiwn dystiolaeth: Tystiolaeth ychwanegol**

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Dywedodd PM fod strôc yn rhan o'r hyfforddiant meddygol craidd a'r hyfforddiant ychwanegol i'r rhai sydd am arbenigo mewn strôc. Mae'n agored ar hyn o bryd i gofrestryddion hyfforddiant arbenigol sydd â chymwysterau penodol. Nid yw'r anhawster o ran recriwtio i swyddi hyfforddi ledled y DU a Chymru yn eithriad. Dechreuodd gyda phedair swydd y llynedd, ond bu rhaid gostwng y nifer i ddau, ond recriwtiwyd un yn unig. Recriwtiwyd arbenigwyr eraill i'r slotiau sy'n weddill i feddwl mewn ffordd wahanol ond ni fyddant yn ennill cymhwyster. Llenwyd y ddwy swydd ar gyfer mis Awst eleni.

Mae newidiadau ar y ffordd i gwricwla hyfforddiant meddygol, a allai arwain at ymgorffori hyfforddiant strôc mewn un neu fwy o arbenigeddau. Bydd yn helpu i greu arbenigwyr. Bydd hyn yn digwydd o 2022 ymlaen, ac mae'r cwricwla ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad cenedlaethol ar sail y pedair gwlad.

Rhoddodd PM wybodaeth am y modiwlau a'r cymwysterau sydd ar gael yn ymwneud â strôc. Bydd cyrsiau generig eraill yn ymwneud â strôc.

Trefnwyd cyfarfod gydag AF i weld sut mae gwaith yr Hwb Strôc ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn gorgyffwrdd. Crëwyd hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer nyrsys mewn gofal strôc eisoes. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y fframwaith ar gyfer nyrsys strôc ym mhob un o'r pedair gwlad ac mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn edrych ymlaen at gydweithio.

**Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)**

Amlinellodd SL rôl WHSSC. Yn draddodiadol nid yw WHSSC wedi comisiynu gwasanaethau strôc ond gofynnwyd iddo i gomisiynu thrombectomi yn 2018.

Yn 2019/20, nodwyd cronfeydd ar gyfer 32 o gleifion (£800,000) i ddarparu thrombectomi i gleifion yn ne Cymru. Er gwaethaf y cyllid a nodwyd, hyd yma dim ond pum claf oedd wedi cael thrombectomi. Cafodd rhai cleifion driniaeth yng Nghaerdydd hefyd.

Cytunwyd ar gontract ar y cyd â Bryste i ddarparu thrombectomi ond cafwyd dwy broblem benodol wrth weithredu'r contract. Mae'r broblem gyntaf yn ymwneud ag ail-wladoli a bu oedi gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wrth ei sefydlu. Mae Bryste wedi gwneud gofynion penodol sy'n gofyn am ail-wladoli o fewn chwe awr. Yr ail o'r rhain yw problemau o ran trosglwyddo delweddau rhwng Byrddau Iechyd Lleol a'r North Bristol Trust. Daeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o hyd i ateb. Bydd angen i Fyrddau Iechyd Lleol unigol weithredu. Nid yw'n rhan o gylch gwaith WHSSC ond maent wedi'i hwyluso. Mae trosglwyddo delweddau yn cymryd cyhyd, nid yw'n bosibl trosglwyddo cleifion yn brydlon. Maent hefyd yn ymchwilio i ddatrysiad yn ymwneud â meddalwedd.

Yng ngogledd Cymru, nodwyd cyllid ar gyfer ugain o gleifion a, hyd yma, mae tri chlaf wedi cael thrombectomi. Contract gyda'r Walton. Mae Walton ar fin cynyddu'r gwasanaeth i saith diwrnod yr wythnos. Nid yw’n eglur pam mae cyn lleied o gleifion yn cael mynediad at thrombectomi. Nid yw’n ymwybodol o unrhyw rwystr ac maent wedi codi’r broblem gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae un claf yng nghanolbarth Cymru ac nid oes trefniant cyllido ffurfiol. Caiff ei dalu fesul achos, heb derfyn uchaf. Mynediad i glaf drwy lwybr GIG Lloegr.

Yr elfen allweddol wrth symud ymlaen yw cryfhau'r gwasanaeth yng Nghaerdydd. Bu problemau recriwtio yng ngwasanaeth Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae dau ymgynghorydd, gydag un ar fin gorffen yr hyfforddiant. Disgwylir hysbysebu ar gyfer trydydd ymgynghorydd. Nid oes rhwystr ariannol, y broblem yw recriwtio.

Mae’r strategaeth tymor hwy yn dibynnu ar asesu cymhwystra ac a yw'n bosibl cyflawni drwy bobl nad ydynt yn niwroradiolegwyr. Mae angen meddwl am y model mewn ffordd greadigol.

Rhoddodd SA y wybodaeth ddiweddaraf am asesu cymhwystra. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn edrych ar hyn ar hyn o bryd.

**Cwestiynau gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ar gyfer y panel:**

Gofynnodd FJ i Addysg a Gwella Iechyd Cymru sut maen nhw'n bwriadu cyflenwi meddygon sydd â diddordeb mewn strôc gan fod argaeledd ymgynghorwyr yn cyfyngu ar systemau ar hyn o bryd. Tynnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru sylw at y ffaith fod hyfforddiant strôc yn rhan annatod o bob rhan o feddygaeth ac nad yw'r rhai sy'n gweithio ar strôc ar hyn o bryd bob amser wedi cael hyfforddiant penodol ar strôc. Nododd fod y problemau o ran y model hyfforddi presennol yn arwain at lenwi dim ond 14 o 49 o leoedd hyfforddi yn y DU. Nid yw'r model bob amser wedi bod yn ddeniadol er bod yr hyfforddiant yn dda. Gan edrych at y dyfodol, byddai’n well gweld strôc fel rhan annatod o'r cwricwlwm meddygaeth yn hytrach na rhywbeth i optio i mewn iddo. Mae newid ar waith, ac nid rôl Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw gosod cwricwlwm, ond ei weithredu. Roedd adolygiad o siâp hyfforddiant yn edrych ar y themâu hyn ac mae’r holl gwricwla yn cael eu hadolygu. Mae niwroleg yn enghraifft o hyn. Bydd isadran o'r cwricwlwm ar gyfer strôc yn rhan safonol o'r cwrs niwroleg. Nid yw arbenigeddau eraill wedi mynd mor bell â hynny eto. Bydd angen i gyflogwyr hysbysebu yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar wasanaethau neu byddant yn colli arbenigedd.

Gofynnodd DF beth oedd yn cael ei wneud i gadw staff yn ogystal â recriwtio, yn enwedig ym maes adsefydlu. Atebodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru y gellir sicrhau bod mwy o gyrsiau ar gael wrth adsefydlu er mwyn galluogi mynediad. Mae ffocws gwirioneddol ar therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion sy’n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Nid cyfrifoldeb Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw cadw gweithwyr, ond yn hytrach cyrsiau addysg a gwthio prifysgolion.

Dywedodd TH bod angen hyfforddeion er mwyn cefnogi INRs sy'n gweithio ym maes thrombectomi.

**Y Gymdeithas Strôc**

Rhoddodd MO drosolwg o gynnwys posibl adroddiad ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol. Nid yw'r manylion hyn wedi'u cofnodi gan mai drafft yw’r argymhellion ar hyn o bryd.

**Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfodydd nesaf:**

**24 Mawrth, 12.30pm, Ystafell Bwyllgora 5**

**Pwnc ar gyfer y cyfarfod nesaf: Lansio'r adroddiad ar yr ymchwiliad**

**Diwedd y cyfarfod**